



Yn bresennol:

Enw	Organisation
Simon Pickering (Cadeirydd)	Llywodraeth Cymru – Pennaeth Hamdden Awyr Agored a Thirweddau
Jont Bulbeck	Cyfoeth Naturiol Cymru
Eifion Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog))	Yn cynrychioli'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r 5 AHNE
Adrian Walls	Gweithgor Rheolwyr Llwybrau Tramwy Cymru
Ben Sears	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymorth technegol ac ysgrifenyddol:

Enw	Sefydliad
Sarah Smith	Llywodraeth Cymru – Hamdden Awyr Agored a Thirweddau
Joe Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jayne Carter	Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymddiheuriadau:

Helen Lewis	Llywodraeth Cymru – Hamdden Awyr Agored a Thirweddau
-------------	--

Penderfyniadau allweddol a'r camau gweithredu a oedd yn deillio ohonynt	Perchennog
<p><b>Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.</b></p> <p>1. Cytunwyd ar y cofnodion.</p>	
<p><b>Y Diweddaraf am yr Adroddiad Nodi Opsiynau</b></p> <p>2. Rhoddodd CNC yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp ynglŷn â sut y mae'n bwriadu adrodd ar yr adborth sydd wedi dod i law.</p>	

<p>3. Gofynnwyd i'r Gweithgor nodi bod Fforymau Mynediad Lleol wedi mynegi rhai pryderon am natur dechnegol y papurau a'r manylion ynddynt.</p>	
<p><b>Cwestiynau Cyfreithiol</b></p> <p>4. Mae CNC wedi nodi nifer o gwestiynau cyfreithiol sydd wedi cael eu codi yn ystod cyfarfodydd y grwpiau arbenigol. Cytunodd EJ ac AW i edrych ar y cwestiynau sydd wedi codi o bersbectif swyddog hawliau tramwy.</p> <p>5. Bydd CNC yn anfon papur terfynol a fydd yn cynnwys y cwestiynau cyfreithiol at LIC.</p>	<p>Eifion ac Adrian</p> <p>CNC a LIC</p>
<p><b>Cod Mynediad Statudol</b></p> <p>6. Cydnabyddir bod angen i hamdden cyfrifol gael ei ystyried ar y cyd â phrosesau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (ARAG) yn hytrach nag ar ôl mis Mawrth 2021. Mae CNC wrthi'n datblygu ffyrdd o nodi a chofnodi allbynnau perthnasol yn ystod proses ARAG.</p>	
<p><b>Amserlen y Rhaglen</b></p> <p>7. Cydnabuwyd y byddai o gymorth pe byddai cyfarfodydd y Gweithgor yn cael eu symud yn ôl rhyw bythefnos. Bydd CNC yn rhoi gwybod i LIC am y newidiadau a awgrymir.</p> <p>8. Nodwyd y gallai Covid-19 effeithio ar yr ymatebion a ddaw i law mewn ymateb i'r Papurau ar yr Opsiynau a Gynigir.</p> <p>9. Nodwyd bod llawer o aelodau'r grwpiau arbenigol yn gweithio o gartref (rhai ohonynt ar waith sy'n gysylltiedig â Covid) a bod un neu ddau ohonynt wedi cael eu rhoi ar ffyrlo.</p> <p>10. Mae'r Gweithgor yn derbyn y gallai fod angen i rai o aelodau'r grwpiau arbenigol ddirprwyo gwaith a/neu benodi eraill i fynd yn eu lle i gyfarfodydd, neu gyfuno'u hadnoddau ag eraill sy'n cynrychioli eu grŵp buddiant.</p>	<p>CNC a LIC</p>
<p><b>Grŵp Arbenigol 3 – Diweddariad gan y Cynrychiolydd Technegol</b></p> <p>11. Mae Ben wedi trefnu cyfarfod gyda Swyddog Data Gofodol i drafod cynorthwyo Grŵp Arbenigol 3.</p> <p>12. Dywedodd CNC y byddai'n cysylltu â'i dîm GIS mewnol i ofyn am gyngor.</p>	<p>Ben</p> <p>CNC</p>

